Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON
ADOLYGIAD O BAPURAU NEWYDD SAESNEG YNG NGHYMRU

Crynodeb

1. Ym mis Rhagfyr 2005, cytunodd y Pwyllgor i gynnal “adolygiad byr o swyddogaeth cwmni Trinity Mirror ym marchnad y cyfryngau yng Nghymru”. Daeth hyn yn sgil sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor a thrafodaeth mewn cyfarfodydd llawn am y posibilrwydd o golli swyddi yn niwydiant y wasg yng Nghymru.
2. Bu'r Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth ar dri achlysur gan fuddiannau amrywiol (Atodiad A), gan gynnwys grwpiau papurau newydd, undebau'r wasg a'r cyfryngau, ac Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd. Nid oedd papurau newydd Cymraeg yn rhan o'r adolygiad.
3. Mae'r adrannau canlynol yn nodi prif gasgliadau'r adolygiad, sef:

    i. Er na ddaeth ein pryderon gwreiddiol am ddiswyddo gweithwyr yn orfodol yn wir, rydym yn siomedig mai dyma'r ail gylch o ddileu swyddi mewn dwy flynedd, a hynny ar ddiwedd blwyddyn pan wnaeth cwmni Western Mail and Echo Ltd elw sylweddol a chynyddu nifer y darllenwyr (para 2.1)
    ii. Er ein bod yn deall y rhesymau masnachol dros gau gwasg Abertawe credwn ei bod yn drueni colli swyddi argraffu medrus yng Nghymru a'r ffaith bod papurau newydd lleol Cymru yn cael eu hargraffu yn Lloegr (para 2.1)
    iii. Rydym yn croesawu'r ffaith bod llawer o gwmnïau papurau newydd gan gynnwys grŵp Trinity Mirror Group a'r Western Mail and Echo Ltd, wedi buddsoddi arian sylweddol yma yng Nghymru, ac yn nodi cryfder diwydiant papurau newydd lleol Cymru (para 2.2)
    iv. Rydym yn argymell bod Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu'r cyrsiau hyfforddi newyddiadurwyr a ddarperir mewn colegau addysg bellach ac addysg uwch gan ddefnyddio arian cyhoeddus. (para 2.3)
    v. Rydym yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn adolygu ei strategaeth hysbysebion papurau newydd o ran hysbysebion swyddi, i sicrhau eu bod yn cael eu gosod mewn papurau newydd ledled Cymru (para 2.7)

Materion ac argymhellion

2.1 Y sefyllfa economaidd bresennol, dileu swyddi ac uno cwmnïau

Clywsom dystiolaeth bod y sefyllfa economaidd bresennol wedi bod yn fwy o her na'r arfer i bapurau newydd Cymru ers dros flwyddyn[1]. Y prif reswm am hyn oedd y ffaith bod defnyddwyr yn gwario llai ac effaith hynny ar ddulliau hysbysebu traddodiadol[2]. Roedd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gyllid hysbysebion papurau newydd[3].

Nodwyd rhesymau eraill hefyd fel cystadleuaeth newydd am gyllid hysbysebion o du'r gorsafoedd radio masnachol a'r rhyngrwyd [4]. Roedd sawl cwmni papur newydd hefyd yn wynebu'r her o benderfynu a ddylent fuddsoddi'n sylweddol i foderneiddio eu prosesau argraffu fel argraffu mewn lliw llawn.

Un rheswm dros gynnal adolygiad oedd pryderon am ddileu swyddi yn y diwydiant. Clywodd y pwyllgor bod Grŵp Trinity Mirror wedi cynnal ymarfer ymgynghori ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2005 ar ailstrwythuro a'r posibilrwydd o ddileu 50 o swyddi yn Western Mail and Echo Ltd. Roedd aelodau Undeb y Newyddiadurwyr (NUJ) y cwmni wedi pleidleisio o blaid mynd ar streic[5].

Yn sgil y broses ymgynghori fodd bynnag[6], cytunwyd y byddai 30.8 o swyddi (cyfwerth ag amser llawn) yn mynd trwy ddileu swyddi'n wirfoddol, gostyngiad o 5.1% yn lefel staffio Western Mail and Echo Ltd[7]. Ni chafwyd streic, gan mai dileu swyddi gorfodol oedd prif bryder y staff[8]. Hefyd, pwysleisiodd Mr Keith Dye o gwmni Western Mail and Echo mai rheolwyr y cwmni yng Nghaerdydd oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â'r gweithlu, nid tîm rheoli grŵp Trinity Mirror yn Llundain[9]. Daeth y broses ailstrwythuro i ben ddiwedd Ionawr 2006.

Mater arall oedd yn peri pryder i ni yw'r posibilrwydd o uno staff papurau newydd lleol, er enghraifft uno gwaith golygyddol papurau *Rhondda Leader* a'r *Pontypridd and Llantrisant Observer* o eiddo Trinity Mirror[10]. Ar ôl ymgynghori fodd bynnag, clywsom fod rheolwyr Trinity Mirror wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â hyn, ond rydym yn dal i boeni am gynlluniau unrhyw gwmni papur newydd i leihau nifer y newyddiadurwyr/golygyddion lleol, gan fod hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar safon cyflwyno newyddion a materion lleol.

---

[1] 16.02.06, t70-73, t82-84, t87

[2] 24.05.06, t80-88

[3] 19.01.06, t238-240

[4] 19.01.06, t326, t352

[5] 19.01.06, t311

[6] 19.01.06, t335, t344-346, t358, t360

[7] 19.01.06, t228-230, t253-254

[8] 19.01.06, t334-335

[9] 19.01.06, t237

[10] 19.01.06, t201, t227, t349

Rydym wedi clywed tystiolaeth yn amlinellu'r rhesymau dros yr ymarfer ymgynghori ar ddileu swyddi gan Western Mail and Echo Ltd ac wedi nodi bod y canlyniad yn dilyn yr ymgynghoriad yn wahanol i'r cynigion cychwynnol. Serch hynny, rydym yn siomedig gyda'r ail gylch hwn o ddileu swyddi mewn dwy flynedd a'r ffaith i hyn ddigwydd ar ddiwedd blwyddyn pan wnaeth Western Mail and Echo Ltd elw sylweddol a chynyddu nifer y darllenwyr. [11] [12]

Yn ôl Mr Chris Rees, Rheolwr Gyfarwyddwr, South West Wales Publications Ltd, rheswm cwbl fasnachol oedd y tu ôl i'r penderfyniad i gau gweisg argraffu Northcliffe Newspaper Group yn Abertawe[13] ar 7 Hydref 2005 a symud y gwaith argraffu i Gaerloyw oherwydd yr holl fuddsoddiad oedd ei angen i uwchraddio gweisg Abertawe i safon fodern (gan gynnwys prosesau lliw), ac nid oedd trosglwyddo gwaith argraffu'r Swansea Evening Post wedi cael unrhyw effaith ar amserlen cyflwyno adroddiadau[14].

Er ein bod yn deall y rhesymau masnachol dros gau gwasg Abertawe credwn ei bod yn drueni colli swyddi argraffu medrus yng Nghymru a'r ffaith bod papurau newydd lleol Cymru yn cael eu hargraffu yn Lloegr.

2.2 Buddsoddi gan y diwydiant papurau newydd yng Nghymru

Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor, pwysleisiodd bob cyfrannwr ymrwymiad eu cwmni papur newydd i Gymru, yn enwedig o ran safon newyddiadura a'u hymrwymiad i'w gweithwyr a'r gwasanaethau i hysbysebwyr a chymunedau lleol. [15] [16] [17]

Roedd yr enghreifftiau o fuddsoddi'n cynnwys:

(a) gwario symiau sylweddol mewn gweisg argraffu o'r radd flaenaf gan Trinity Mirror a Newsquest,
(b) ymchwilio i anghenion darllenwyr, fel cyflwyno Western Mail llai o faint, a fersiwn gwell o'r South Wales Echo (lansiwyd 15 Mai 2006),
(c) datblygu cynnyrch a chymorth i fusnesau Cymru,
(d) technoleg ddigidol gan gynnwys e-rifyn o'r Western Mail a fersiynau tebyg ar y gweill i'r South Wales Echo a'r South Wales Argus,
(e) buddsoddi yn y rhyngrwyd a datblygu gwefannau llwyddiannus gan bapurau newydd fel "Thisis . . . "[18] ac "icWales"
(f) buddsoddi mewn pobl, yn enwedig hyfforddi a datblygu staff.

---

[11] 19.01.06, t185-188, t231-236, t313-315, t320

[12] 16.02.06, t43

[13] 19.01.06, t333

[14] 16.02.06, t90, t95-97

[15] 19.01.06, t189-192

[16] 24.05.06, t8-10

[17] 24.05.06, t110-113

[18] 16.02.06, t29

Roedd pawb hefyd yn cytuno ynglŷn â phwysigrwydd cael adroddiadau lleol o safon. Meddai'r Dr James Thomas, Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd:

> I agree that the press in Wales is strongest at the local level. The local news is absolutely to the fore of people's interests when they buy newspapers in Wales. [19]

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

> Local news is absolutely key to local newspapers[20].
> Mr Gerry Keighley, Rheolwr Golygyddol Rhanbarthol,
> Newsquest Wales and Gloucestershire

> It is certainly in our commercial interest to be as local/parochial as we possibly can. [21]
> Mr Barry Jones, Prif Olygydd, North Wales Newspapers Ltd

> **Croesawyd buddsoddiad sylweddol llawer o gwmnïau papurau newydd, gan gynnwys Grŵp Trinity Mirror a Western Mail and Echo Ltd, yma yng Nghymru, a nodwyd pwysigrwydd cryfder y diwydiant papurau newydd lleol yng Nghymru.**

2.3 Cyfleoedd gyrfa i newyddiadurwyr

Cyflwynodd Mr Dye[22], Mr Edmunds[23] a Mr Steacy[24] dystiolaeth i ddangos bod newyddiaduraeth yn ddewis hynod boblogaidd fel gyrfa ymysg pobl ifanc, a bod cwmnïau papurau newydd yn derbyn llu o geisiadau am brofiad gwaith a chyfleoedd hyfforddi. Hefyd, cafwyd tystiolaeth ganddynt o'r cymorth maent yn ei roi i newyddiadurwyr dan hyfforddiant ddatblygu drwy ddilyn llwybr gyrfa wedi'i strwythuro[25]. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewnol, hyfforddiant i ôl-raddedigion a phrentisiaeth llwybr gyrfa wedi'i strwythuro, sy'n arwain at ennill cymhwyster uwch, cydnabyddedig.

Meddai Mr Barrie Jones, North Wales Newspapers:

> "The training of journalists has, in fact, never been better."

> **Er hynny, mae'n bwysig bod llwybrau gyrfa cadarn ar gael i newyddiadurwyr[26] ac rydym yn argymell bod Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y Cynulliad yn adolygu'r cyrsiau hyfforddi newyddiadurwyr a ddarperir gan golegau addysg bellach ac uwch gan ddefnyddio arian cyhoeddus.**

---

[19] 16.02.06, t143

[20] 16.02.06, t114

[21] 16.02.06, t120

[22] 24.05.06, t183

[23] 24.05.06, t180

[24] 24.05.06, t184

[25] 16.02.06, t161-163

[26] 19.01.06, t373

2.4 Her a Chyfleoedd Electronig

Nodwyd dylanwad y rhyngrwyd a'r ffaith ei fod yn cynnig her a newidiadau mawr i arferion gwaith busnesau papurau newydd. Cytunwyd bod hyn yn gryn her yng Nghymru, er bod gan lai o bobl Cymru fynediad i'r we[27]. Nodwyd hefyd y bygythiad i gyllid hysbysebion papurau newydd yn enwedig hysbysebion swyddi.

Er hynny, mae papurau newydd yn defnyddio'r rhyngrwyd i hyrwyddo eu cynnyrch eu hunain[28] mewn sawl modd, er enghraifft defnyddio eu gwefannau eu hunain fel *this is . . . .*, *icWales,* a chyflwyno fersiynau electronig o'u papurau newydd fel e-Western Mail sydd newydd ei lansio, a gwasanaeth tebyg ar gyfer y South Wales Echo a'r South Wales Argus sydd i'w lansio cyn bo hir.

Rhagwelwyd y bydd datblygiadau'r dyfodol gan gynnwys E-ink a chyfryngau electronig eraill ar gyfer papurau newydd, gydag amser, yn darparu datblygiadau cyffrous iawn ar gyfer cwmnïau papur newydd[29].

Nodwyd bod y ffaith ei bod yn haws cael gafael ar fwyfwy o newyddion ar flaenau'n bysedd trwy sianeli teledu newyddion 24 awr, safleoedd newyddion ar y rhyngrwyd a negeseuon testun yn creu patrwm newydd gyda phapurau newydd yn canolbwyntio ar ddarparu sylwadau a thrafodaeth ar faterion yn hytrach na cheisio cyflwyno'r newyddion diweddaraf[30].

2.5 Cymhariaeth â Diwydiant Papur Newydd yr Alban

Roedd rhywfaint o anghytuno yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni ynglŷn â dilysrwydd cymharu'r diwydiant papur newydd yng Nghymru a'r Alban[31]. Yn ei adroddiad, dywedodd Dr James Thomas:

> The absence of a strong, agenda-setting set of newspapers is often contrasted with Scotland, where over 85% of papers that are produced there are consumed there. In Wales the situation is the complete reverse, in that over 85% of daily morning papers consumed in Wales are produced in England.[32]

Fodd bynnag, dadleuodd Mr Keith Dye ac eraill nad oedd hwn yn fesur o iechyd diwydiant papur newydd y ddwy wlad. Yn y bôn mae'n rhatach cludo papurau newydd o Loegr i Gymru ac yn fwy cost-effeithiol i bapurau newydd cenedlaethol Lloegr argraffu rhifynnau'r Alban yn yr Alban.

---

[27] 16.02.06, t44

[28] 19.01.06, t201

[29] 24.05.06, t175-178

[30] 24.05.06, t29

[31] 16.02.06, t45-46,60

[32] CWLS(2) 03-06 (t3), The Regional and Local Media in Wales

> In fact of the six top-selling newspapers in Britain, only one, at no. 4, the Daily Telegraph, does not produce a Scottish edition. Mr Keith Dye[33]

2.6 Yr achos o blaid papur newydd Cymru gyfan

Mae sefydlu papur newydd Cymru gyfan yn ddeniadol mewn egwyddor o ran hyrwyddo hunaniaeth genedlaethol Cymru a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion a newyddion Cymru gyfan ymhellach[34] [35] [36].

Fodd bynnag, clywsom dystiolaeth gref fod papur cenedlaethol i Gymru gyfan yn dra annhebygol o fod yn llwyddiant masnachol a byddai angen arian cyhoeddus rheolaidd i'w gynnal[37]. Y prif reswm am hyn oedd dibyniaeth papur newydd ar hysbysebwyr lleol ac mae'n annhebygol y byddai papur newydd gyda darllenwyr ledled Cymru yn gallu denu digon o incwm o hysbysebion i fod yn gynaliadwy[38].

Dadleuwyd y gallai papur o'r fath gael ei gynnal gan hysbysebion Cymru gyfan a chynnwys hysbysebion mwy lleol yn y rhifynnau daearyddol gwahanol, er enghraifft, tudalennau hysbysebu gwahanol ar gyfer y gogledd, y de-ddwyrain a'r gorllewin.

Nodwyd hefyd yr honnir nad oes gan yr Alban bapur newydd cenedlaethol yn ddaearyddol gyda'r Scotsman yn cwmpasu Caeredin ac arfordir y dwyrain yn bennaf, yr Herald yn cwmpasu Glasgow ac arfordir y gorllewin a'r Aberdeen Press and Journal yn cwmpasu ardaloedd y gogledd[39].

O bwyso a mesur, nodwyd y dystiolaeth y byddai papur Cymru gyfan yn annhebygol o lwyddo'n fasnachol.

2.7 Papurau Newydd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

(a) Hysbysebu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Clywsom dystiolaeth fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hysbysebu hysbysiadau cyhoeddus a swyddi gwag yn rheolaidd mewn nifer fach o bapurau newydd[40].

Dyma bolisi'r Cynulliad ar gaffael hysbysebion swyddi:

> "more senior positions or those that have proved more difficult to fill are advertised in the press, normally the 'Western Mail', 'The Daily Post' and 'Golwg'. Occasionally,

---

[33] 19.01.06, t203-204

[34] 16.02.06, t127-136

[35] 16.02.06, t150

[36] 24.05.06, t35-44

[37] 16.02.06, t138-140

[38] 16.02.06, t187

[39] 24.05.06, t40

[40] 24.05.06, t153, t156, t160-165

national newspapers or specialist publications are used for positions requiring particular skills. All positions are advertised with www.Welshjobs.com"

Codwyd materion sy'n ymwneud â rhoi hysbysebion Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn papurau newydd[41] [42] ac awgrymwyd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried amrywiaeth ehangach o bapurau newydd Cymru nag y gwna ar hyn o bryd, wrth benderfynu ble i gyhoeddi ei hysbysebion recriwtio.

Rydym yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adolygu ei strategaeth hysbysebu mewn papurau newydd ar gyfer hysbysebion swyddi i sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi mewn papurau newydd ledled Cymru.

(b) Sylw'r wasg i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn dilyn sefydlu'r Cynulliad ym 1999, aeth nifer o bapurau newydd ati i gyflogi newyddiadurwyr i weithio yn adeilad y Cynulliad yn llawn amser[43]. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae'r arfer hwn wedi dirwyn i ben ac mae llawer o'r papurau newydd yn defnyddio adroddiadau Cymdeithas y Wasg ar fusnes y Cynulliad o ddydd i ddydd ac yn anfon gohebwyr i'r Cynulliad ar gyfer eitemau sydd o ddiddordeb arbennig iddynt[44].

Dywedodd cynrychiolwyr papurau newydd yn eu tystiolaeth mai'r her yn eu barn nhw yw adrodd ar fusnes y Cynulliad yn deg ac yn effeithiol ac mewn modd sy'n ddiddorol ac yn berthnasol i'w darllenwyr.

Dywedodd Mr Dye[45] a Mr Edmunds[46] fod yr ymchwil i'r farchnad a gynhaliwyd gan y Western Mail and Echo yn cadarnhau bod gan ddarllenwyr fwy o ddiddordeb mewn sut mae busnes y Cynulliad yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, er enghraifft, penderfyniadau ar ysgolion, iechyd, yr economi ac ati yn hytrach nag adroddiadau gair am air o gyfarfodydd llawn neu gyfarfodydd pwyllgorau'r Cynulliad[47].

Trafodwyd y lefelau isel o ymwybyddiaeth fanwl y cyhoedd yn y gogledd o'r Cynulliad a sut gall papurau newydd hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion a busnes y Cynulliad Cenedlaethol[48]. Roeddem yn poeni am yr ystadegau yn adroddiad Dr Thomas sy'n dangos bod llawer o'r etholwyr yn cael gwybodaeth am etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol gan ffynonellau heblaw papurau newydd [49] [50].

---

[41] 16.02.06, t41, t42

[42] 24.05.06. t153-165

[43] 19.01.06, t212, t222-223,

[44] 16.02.06, t166

[45] 19.01.06, t196, t220,

[46] 19.01.06, t275

[47] 24.05.06, t28

[48] 16.02.06, t117, t119

[49] 19.01.06, t263-264, t274

[50] 16.02.06, t107, t109-110

Ar yr ochr gadarnhaol, cydnabuwyd bod y papurau newydd yn rhoi sylw i lawer o faterion yn lleol ac yn ymgyrchu drostynt ac mae hyn yn cynnwys adrodd ar benderfyniadau a chamau cadarnhaol Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r materion hyn. Unwaith eto ar yr ochr gadarnhaol, mae gwaith Aelodau lleol adnabyddus o'r Cynulliad ar lefel Etholaeth a Rhanbarth yn aml yn cael sylw[51].

[51] 24.05.06, t46-68

Atodiad A

Cyflwynodd y canlynol dystiolaeth i'r Pwyllgor, fel rhan o'r adolygiad:

Ar 19 Ionawr 2006[52]

- Mr Keith Dye, Rheolwr Gyfarwyddwr, Western Mail and Echo Ltd
- Mr Alun Edmunds, Golygydd, Western Mail
- Mr Martin Shipton, cadeirydd cangen Caerdydd a De Ddwyrain Cymru Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, a hefyd yn aelod pwyllgor capel yn Western Mail and Echo Ltd
- Mr Jeremy Dear, ysgrifennydd cyffredinol, cangen Caerdydd a De Ddwyrain Cymru Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr a
- Ms Andrea Jones, swyddog rhanbarthol, Amicus,

Ar 16 Chwefror 2006 [53]

- Mr Barrie Jones, Prif Olygydd, North Wales Newspapers Ltd;
- Mr Gerry Keighley, Golygydd Rheoli Rhanbarthol, Newsquest Wales and Gloucestershire; Kevin McNulty, Rheolwr Gyfarwyddwr, North Wales Newspapers Ltd;
- Mr Chris Rees, Prif Weithredwr, South West Wales Publications Ltd;
- Mr Gavin Steacy, Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol, Newsquest Wales and Gloucestershire; Paul Taylor, Golygydd Cyhoeddi, North Wales Newspapers Ltd;
- Dr James Thomas, Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd,

Ar 24 Mai 2006[54]

- Mr Keith Dye, Rheolwr Gyfarwyddwr, Western Mail and Echo Ltd
- Mr Alun Edmunds, Golygydd Western Mail and Echo Ltd
- Mr Gavin Steacy, Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol, Newsquest Wales and Gloucestershire;

[52] 19.01.06, 183-373

[53] 16.02.06, 14-193

[54] 24.05.06, 6-193